

Arweiniad i addysg uwch yng Nghymru

Chwefror 2022



Cynnwys

Rhagair	3
Rhagarweiniad i sefydliad Prifysgolion Cymru	6
Prifysgolion yng Nghymru	7
Profiad y myfyrwyr	10
Ymchwil ac arloesi	14
Cennad Ddinesig	18
Rhyngwladol	22
Sgiliau ar gyfer y dyfodol	26
Pweru economi Cymru	30
Adeiladu dyfodol Cymru - cyfleoedd a heriau yn ystod y chweched Senedd	34

Rhagair

Mae prifysgolion yng Nghymru yn cyfrannu at wead ein gwlad, gan ddod â buddion i'r economi leol a chenedlaethol. Maent yn darparu sgiliau ac addysg i bobl o bob oed a chefnidir.

Mae ein prifysgolion yn ymgymryd â gwaith ymchwil ac arloesi pwysig, gan arwain y ffordd ar ddatblygiadau gwyddonol sy'n cael effaith ddiriaethol ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Yn ogystal â buddion lleol, mae prifysgolion yn datblygu partneriaethau rhyngwladol sy'n rhoi Cymru ar y map, gan ddenu buddsoddiad hanfodol i'r wlad.

Trwy gydol hyn, mae cydweithredu wedi bod wrth wraidd y ffordd y mae ein prifysgolion yn gweithredu: cydweithredu â busnesau, elusennau, a'r sector cyhoeddus.

Mae'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr wrth i'r wlad ddechrau dod allan o'r pandemig a chychwyn ar gyfnod newydd gyda gwahanol gysylltiadau masnachu byd-eang. Mae'r argyfwng newid hinsawdd yn dod yn fwy o fygythiad i'n ffordd o fyw. Mae'r gweithle'n newid. Bydd digideiddio ac awtomeiddio yn golygu heriau a chyfleoedd cymdeithasol ac economaidd newydd. Gyda'i gilydd, mae'r heriau hyn yn ddigynsail.

Trwy weithio gyda'r Senedd a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phartneriaid ledled Cymru, bydd prifysgolion o gymorth i'n hadferiad cenedlaethol. Gall ein prifysgolion helpu i adeiladu dyfodol Cymru trwy gyflawni uchelgais ac addewid Cymru.

Mae'r canllaw hwn yn darparu trosolwg o addysg uwch yng Nghymru, a rôl sefydliad Prifysgolion Cymru wrth gynrychioli'r sector.

Yr Athro Elizabeth Treasure
Cadeirydd, Prifysgolion Cymru



Mae yna 9 Prifysgol yng Nghymru

Mae dros 134,000 o fyfyrwyr yn
mynychu prifysgolion Cymru
bob blwyddyn...

...gan gynnwys 22,000
o fyfyrwyr rhyngwladol



Yn 2019/20 creodd
prifysgolion Cymru dros
£5.3 biliwn o allbwn



£661m



61,722 o swyddi

£661 miliwn mewn enillion
allforio, sy'n cyfateb i 11.8%
o holl enillion allforio sector
gwasanaethau Cymru

1 o bob 20 o swyddi
yng Nghymru

Cyflogadwyedd



Mae 94% o raddedigion yn llwyddo i sicrhau cyflogaeth neu astudiaeth bellach



Mae busnesau gweithredol a sefydlwyd gan raddedigion o Gymru'n cyfrif am fwy na 13% o gyfanswm y DU - cyfradd uchaf y pen yn y DU.

Cefnogi cymunedau



250,000
o ddyddiau



Mae holl brifysgolion Cymru wedi'u hachredu fel Cyflogwyr Cyflog Byw

Yn 2019/20, darparodd prifysgolion Cymru gwerth dros 250,000 o ddiwrnodau o ddatblygiad proffesiynol



Yn ystod 5 mlynedd nesaf,
bydd prifysgolion Cymru wedi:

1,300

4,000

£536m

Helpu 1,300 o fusnesau ac elusennau newydd i gael eu ffurfio

Darparu gwerth 4,000 o flynyddoedd o uwchsgilio a hyfforddiant i fusnesau ac elusennau

Bod yn rhan o brosiectau adfywio gwerth £536 miliwn i economi Cymru.

Rhagarweiniad i sefydliad Prifysgolion Cymru

Prifysgolion Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli prifysgolion yng Nghymru, ac mae'n un o Gyngorau Cenedlaethol sefydliad Prifysgolion y DU. Mae aelodaeth Prifysgolion Cymru yn cwmpasu Is-Gangellorion holl brifysgolion Cymru, a Chyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Mae aelodau Prifysgolion Cymru yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn academaidd i drafod materion sy'n ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru, ac i benderfynu ar safbwyntiau a gweithredoedd ar y cyd. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer gwaith Prifysgolion Cymru.

Cadeirydd Prifysgolion Cymru yw'r Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth. Mae'r Cadeirydd yn cynrychioli'r sector prifysgolion mewn cyfarfodydd a chynadleddau allweddol. Ein Dirprwy Gadeirydd yw'r Athro Maria Hinfelaar, Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Ein cennad yw cynnig cymorth i system addysg prifysgol sy'n trawsnewid bywydau trwy'r gwaith y mae prifysgolion yng Nghymru'n ei wneud gyda phobl a lleoedd Cymru a'r byd ehangach.



Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Prifysgolion yng Nghymru



Mae naw prifysgol yng Nghymru, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru.


Mae hanes prifysgolion yng Nghymru yn un cyfoethog ac amrywiol. Fe'u sefydlwyd mewn gwahanol ffyrdd, o brifysgolion a sefydlwyd i hyfforddi ar gyfer yr offeiriadaeth, rhai yn datblygu o arbrawf cymdeithasol prifysgolion yn cael eu sefydlu gyda chyfraniadau gwirfoddol pobl leol, a rhai colegau addysg uwch arbenigol a sefydlwyd gan arweinwyr diwydiannau mawr y cyfnod. Mae holl brifysgolion Cymru yn elusennau cofrestredig ac nid ydynt yn gwneud elw.

Tyfodd y sefydliadau hyn o'u cymunedau, ac maent wedi gwasanaethu'r cymunedau hynny ar draws degawdau lawer, ac mewn rhai achosion canrifoedd.

Mae'r holl incwm maen nhw'n ei dderbyn, yn ogystal ag unrhyw arian sydd dros ben, yn cael ei wario ar:

- Addysgu a hyfforddi myfyrwyr i ddiwallu anghenion sgiliau Cymru a'u darparu â'r nodweddion sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan weithredol mewn economi fyd-eang
- Cynnal ymchwil o'r radd flaenaf sy'n trawsnewid bywydau
- Gyrru arloesedd sy'n cynnal twf economaidd lleol a chenedlaethol
- Buddsoddi yn eu hystadau a'r isadeiledd i ddarparu cyfleusterau addysgu ac ymchwil addas at y diben

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn rheoleiddio'r sector addysg uwch ac yn gweinyddu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr a phrifysgolion.





Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Profiad y myfyrwyr



93.9%

Parhaodd 93.9%
o fyfyrwyr yn
2019-20 i'w hail
flwyddyn astudio

94%

Mae 94% o
raddedigion yn
sicrhau cyflogaeth
neu'n parhau i
astudio ymhellach



Mae Cymru'n arwain y ffordd ar brofiadau myfyrwyr

Mae Cymru yn arwain y ffordd o ran profiad myfyrwyr, gyda sector addysg uwch Cymru yn sgorio'n dda yn gyson o gymharu â chyfartaledd y DU yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS). Yn 2020-21 sgoriodd Cymru'n uwch na chyfartaledd y DU ar ddysgu ac addysgu, profiad myfyrwyr a boddhad cyffredinol.

Mae Cymru yn perfformio'n well na gweddill y DU o ran cyfraddau dargadwedd. Parhaodd 93.9% o fyfyrwyr yn 2019-20 i'w hail flwyddyn astudio. Cymru hefyd sy'n perfformio orau yn y DU ar gyfer parhad astudio i fyfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad.

Mae'r rhagolygon ar gyfer dyfodol graddedigion o brifysgolion Cymru'n rhagorol, gyda 94% o raddedigion yn sicrhau cyflogaeth neu'n parhau i astudio ymhellach o fewn 15 mis i adael y brifysgol.

Iechyd meddwl a llesiant

Mae gan bob prifysgol bolisi iechyd meddwl, ac mae'r sector cyfan wedi ymuno â Fframwaith newid sylweddol Prifysgolion y DU, sy'n amlinellu 'dull prifysgol gyfan' o ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant - gan sicrhau bod pob agwedd ar fywyd prifysgol yn rhoi ystyriaeth i lesiant myfyrwyr a staff.

Yn ystod y pandemig, defnyddiodd prifysgolion gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau a datrysiadau arloesol i alluogi myfyrwyr i barhau i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant.

Rhoddodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion yn y bumed Senedd ystyriaeth i iechyd meddwl myfyrwyr, yn enwedig yn ystod y pandemig. O ganlyniad, mae Prifysgolion Cymru yn gweithio gyda'r sector ehangach i ddatblygu set o egwyddorion ac argymhellion fydd yn ffurfio sail i strategaeth Iechyd Meddwl Myfyrwyr arfaethedig Llywodraeth Gymru sy'n ymdrin ag addysg ôl-16.

Astudiaeth Achos

Mae Rhaglen Cysylltu yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, eu Hundebau Myfyrwyr a cholegau lleol. Nod y rhaglen yw lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd myfyrwyr, ynghyd ag adeiladu cymunedau cefnogol trwy gymorth cyfoedion, rhagnodi cymdeithasol a hyfforddiant myfyrwyr a staff.

Cefnogaeth ariannol

Cymru sy'n cynnig y pecyn cymorth ariannol i fyfyrwyr mwyaf hael yn y DU.

Mae gan fyfyrwyr ar gyrsiau israddedig, rhan-amser ac ôl-raddedig hawl i fenthyciadau cynhaliaeth a grantiau dysgu a gyfrifir ar sail incwm eu cartrefi a dwyster astudio.

Cymru oedd y wlad gyntaf yn Ewrop i gyflwyno cymorth ar gyfer costau byw cymharol ar draws astudiaeth israddedig lawn-amser a rhan-amser.

Cymru hefyd yw'r unig ran o'r DU sy'n darparu cyfwerth â chyflog byw mewn cymorth ariannol i fyfyrwyr. Mae pob prifysgol yng Nghymru hefyd yn cynnig arian o gronfa galedi y gall myfyrwyr wneud cais amdano os oes angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt.

Ansawdd

Rhan allweddol o brofiad myfyrwyr yw sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu y maent yn eu derbyn o ansawdd da ac yn eu helpu i gyflawni eu deilliannau dysgu. Mae yna ystod o fecanweithiau ar draws y sector a ddefnyddir i sicrhau a gwella ansawdd addysg uwch Cymru.

Mae pob prifysgol yng Nghymru yn mynd trwy adolygiadau ansawdd cylchol allanol sy'n craffu ar sut mae prifysgolion yn rheoli, sicrhau a gwella ansawdd eu darpariaeth. Cymru hefyd yw'r wlad gyntaf yn y DU i gael pob prifysgol i ymuno â'r Siarter Uniondeb Academaidd QAA, gan ddangos eu hymrwymiad i ymladd yn erbyn melinau traethawd a mathau eraill o gamymddwyn academaidd.

Mae gwrandio ar fyfyrwyr wrth galon addysg uwch yng Nghymru. Mae pob prifysgol yng Nghymru'n monitro barn myfyrwyr yn fewnol trwy fecanweithiau adborth myfyrwyr. Ar yr un pryd, mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) yn casglu ac yn darparu gwybodaeth fanwl i brifysgolion a'r rheoleiddiwr er mwyn iddyn nhw ddeall yn well sut mae myfyrwyr yn teimlo am eu haddysg, ac mae'n fodd i'r brifysgol fynd i'r afael ag adborth myfyrwyr.

Trwy wrando ar lais myfyrwyr, gall prifysgolion wella'r hyn maent yn ei gynnig; maen nhw bob amser yn edrych ar ffyrdd o wella'r hyn sydd ar gael i'w myfyrwyr. I gynorthwyo yn hyn o beth, mae prifysgolion Cymru wedi cyflwyno prosiectau ar y cyd, fel prosiect dysgu a dadansoddeg JISC a phrosiect dysgu cyfunol cydweithredol.


Mae gan brifysgolion brosesau cwynion mewnol datblygedig ac maent yn destun gweithdrefn gwynion allanol trwy Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Mae gwybodaeth am gwynion i OIA o Gymru ar gael i'r cyhoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd llai o gwynion yng Nghymru, o gymharu â rhywfaint o gynnydd ar draws y DU.

Cymru hefyd yw'r wlad gyntaf yn y DU i gael pob prifysgol i ymuno â'r Siarter Uniondeb Academaidd QAA, gan ddangos eu hymrwymiad i ymladd yn erbyn melinau traethawd a mathau eraill o gamymddwyn academaidd.

Mae'r holl ddulliau hyn yn rhan o'r amgylchedd rheoleiddio ac ariannu y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ganolog iddo.

Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Ymchwil ac arloesi



Mae Prifysgolion Cymru yn ymgymryd ag ymchwil sy'n arwain y byd, gan ddod â buddion diriaethol i bobl a lleoedd Cymru.

O bartneriaethau rhyngwladol sy'n denu buddsoddiad ac arbenigedd i drefniadau cydweithredol lleol gyda mentrau bach a chanolig sy'n dod ag arloesedd i reng flaen busnes Cymru, datblygu cynhyrchion/gwasanaethau newydd a chreu swyddi. Bydd ein sector ymchwil ac arloesi yn allweddol wrth fynd i'r afael â'r heriau y mae Cymru yn eu hwynebu yn sgil newid yn yr hinsawdd, newidiadau technolegol a datblygiadau yn y gweithle.

Cyllido ar gyfer ymchwil ac arloesedd

Mae dau gategori eang ar gyfer cyllid ymchwil, sy'n gweithredu mewn system ariannu ddeuol:

- Mae arian 'cysylltiedig ag ansawdd' (QR) yn gweithredu fel cyllido cyffredinol ar gyfer seilwaith ymchwil; nid yw'n gysylltiedig â phrosiectau penodol, a chyfeirir ato fel 'ymchwil sylfaenol'. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i gynyddu eu capasiti a sicrhau grantiau allanol. Daw'r cyllid hwn o'r grant cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i CCAUC, a chaiff ei ddosbarthu gan CCAUC.
- Gellir cael gafael ar gyllid allanol trwy wneud ceisiadau llwyddiannus am brosiectau ymchwil penodol, a elwir yn 'ymchwil gymhwysol' gan Gyngorau Ymchwil fel UK Research a Horizon Europe. Yn aml mae angen cyllido QR cyfatebol ar gyfer y ceisiadau hyn.

Sefydlwyd Cronfa Arloesedd Ymchwil Cymru yn 2019 i ddarparu cyllido craidd ar gyfer ymchwil, gyda'r nod penodol o ganiatáu i brifysgolion gynyddu eu gallu i ymgysylltu â busnes.

Mae yna gydberthynas gref rhwng QR a chyllid cystadleuol, gan fod cyllid QR yn datgloi potensial prifysgol i fod yn llwyddiannus wrth ennill ceisiadau.



Mae'r cyllido QR hwn yn allweddol wrth ganiatáu i brifysgolion ariannu ymchwilwyr a seilwaith ymchwil, a gellir ei ddefnyddio i ariannu ymchwil arloesol heb gyfyngiadau penodol.

Roedd yr Athro Graeme Reid, yn ei adolygiad yn 2018 o gyllido ymchwil yng Nghymru, yn dadlau'n gryf o blaid cynnydd go-iawn mewn cyllido QR i atgyfnerthu Sylfaen Ymchwil Cymru, yn enwedig yn sgil effaith ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau yn eu hadroddiad yn 2019 ar Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru, y dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion Adolygiad Reid yn llawn.

Mae prifysgolion yng Nghymru wedi sicrhau buddion sylweddol i gymunedau yng Nghymru trwy arian o Gronfa Strwythurol Ewrop. Rhwng 2014-2020 cyfrannwyd dros £300m o arian Ewropeaidd i brosiectau yr oedd prifysgolion Cymru yn bartneriaid arweiniol ar eu cyfer. Bydd canfod cyfleoedd buddsoddi rhanbarthol yn lle'r arian hwn yn hanfodol wrth gynnal y seilwaith a'r gallu i gynnal ymchwil oedd yn bosib yn sgil arian Ewropeaidd.

Rhwydwaith Arloesedd Cymru

Yn 2019, comisiynodd Prifysgolion Cymru yr Athro Graeme Reid i gyflwyno adroddiad yn gwneud argymhellion ar ddyfodol sylfaen ymchwil Cymru. Yn ei adroddiad yn 2019, Cryfder mewn Amrywiaeth, canfu'r Athro Reid bod amrywioldeb yn adnodd pwysig ar gyfer ymchwil yng Nghymru, na wneir digon o ddefnydd ohono. Gellid harneisio'r ystod eang o arbenigeddau ac adnoddau ar draws prifysgolion Cymru i gryfhau gallu Cymru i ddenu cyllido allanol ar gyfer ymchwil.

Yn dilyn hynny, sefydlwyd Rhwydwaith Arloesedd Cymru (RhAC), gan ddod â holl brifysgolion Cymru ynghyd i gydweithio ar geisiadau ymchwil. Mae'r Bwrdd RhAC yn cynnwys Dirprwy Is-Gangellorion o bob prifysgol yng Nghymru, a fydd yn llunio cyfeiriad a ffocws y rhwydwaith. Mae tîm proffesiynol yn gweithio ar ran Prifysgolion Cymru.

Astudiaeth Achos

Mae gweithgareddau **ASTUTE 2020** (Technolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy Uwch) yn cynorthwyo cydweithredu mewn Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (RD&I) diwydiannol rhwng academyddion o'r radd flaenaf wedi'u lleoli mewn pum prifysgol yng Nghymru, yn ogystal â thîm o arbenigwyr technegol, rheolwyr prosiect a diwydiant.



Mae prosiectau llwyddiannus wedi cynnwys cydweithredu â Brother Industries (BIUK) i ddatblygu cetrîs ar gyfer peiriannau argraffu wedi'u gwneud gan ddefnyddio plastig wedi'i ailgylchu. Bellach gall BIUK drawsnewid cynhyrchion a wneir ar hyn o bryd allan o resinau craidd i resinau wedi'u hailgylchu, gan greu effaith amgylcheddol uniongyrchol, lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai, arbed ynni a lleihau allyriadau CO2 o weithgynhyrchu a thirlenwi. O ganlyniad, bydd hyn yn cyfrannu at dargedau'r Llywodraeth, Cytundeb Paris a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Astudiaeth Achos

Mae Ysgoloriaeth Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS) yn rhaglen dan arweiniad Prifysgol Bangor ar ran y sector addysg uwch yng Nghymru, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae KESS yn cynnig cymorth i brosiectau ymchwil cydweithredol, gan leoli myfyrwyr ymchwil gradd meistri a PhD gyda phartneriaid allanol, yn amrywio o fusnesau bach a chanolig i gwmnïau mawr, mentrau cymdeithasol a chyrff cyhoeddus. Mae'r rhan yn cynnwys Gofal Canser Tenovus, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tata Steel, S4C, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Mencap Cymru, Halen Môn, Qioptiq Ltd., P&S Nano Ltd. a Morlyn Bae Abertawe.

Mae busnesau bach a chanolig sy'n manteisio ar brosiect KESS 2 yn elwa o allu canolbwyntio sgiliau tuag at faes ymchwil sy'n gysylltiedig â'u busnes am gost sylweddol is nag, er enghraifft, comisiynu sefydliad ymchwil i ymgymryd â gwaith o'r fath.

Mae prosiectau llwyddiannus hyd yma wedi cynnwys:

- Partneriaeth rhwng myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bangor ac Ymddiriedolaeth Ymchwil Savari, gan ddatblygu ystod o domatos sy'n gwrthsefyll ffwng, yn arbennig ar gyfer hinsawdd Gogledd Ewrop
- Myfyriwr PhD o Brifysgol De Cymru'n gweithio yn RUMM (Monitro a Rheoli Cyfleustodau o Bell) fel seicolegydd carbon isel, i nodi ymyriadau arbed ynni yn seiliedig ar newid ymddygiad ar gyfer cwmnïau mawr
- Partneriaeth gydweithredol rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Phrifysgol Abertawe, sy'n cynnwys myfyriwr PhD yn ymchwilio i gyfradd dyddodi a chyfnewid carbon parhaus mewn corysdd mawn - maes ymchwil cadwraethol o bwysigrwydd cynyddol.

Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Cennad Ddinesig



Mae prifysgolion yng Nghymru wedi gwasanaethu eu cymunedau ers amser maith trwy addysg ac ymchwil, yn ogystal â chynorthwyo ysgolion lleol a'r economi sylfaenol.

Maent yn parhau i fod â rôl hanfodol i'w chwarae o ran ymgysylltu â'u cymunedau lleol a chyfrannu at gymdeithas, yn enwedig wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Yn ystod pandemig Covid, daeth prifysgolion i'r adwy gan ddarparu eu harbenigedd a'u hadnoddau i gynorthwyo ymdrechion Cymru trwy gyflenwi offer meddygol, cyfleusterau ac adnoddau, a thrwy staff a myfyrwyr yn gwirfoddoli eu hamser.

Yn Ionawr 2021, lansiodd prifysgolion yng Nghymru'r Fframwaith Cennad Ddinesig i helpu prifysgolion ag adeiladu ar y ffyrdd maen nhw'n gweithio gyda phobl, ysgolion a chymunedau. Roedd hwn y cyntaf o'i fath yn y DU, a'r cyntaf yn y byd i gael pob prifysgol mewn gwlad i ymrwymo i fod yn rhan ohono.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar bum maes gweithredu allweddol i sicrhau bod prifysgolion wedi'u cyd-gysylltu'n dda, a'u bod yn cyfrannu at eu lleoedd a'u pobl:



Arwain mewn ardal - ymgysylltu ag arweinwyr dinesig allweddol eraill ar lefel genedlaethol a chymunedol



Cyfrannu at godi safonau addysgol trwy ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion, colegau ac amgylcheddau dysgu eraill



Datblygu dinasyddiaeth weithredol



Gweithredu fel peiriant ar gyfer menter gymdeithasol, sgiliau busnes a chyflogadwyedd



Ymateb i faterion byd-eang

Prifysgol Aberystwyth

Dewis Choice, sef prosiect sy'n cael ei redeg gan Brifysgol Aberystwyth, yw'r gwasanaeth cyntaf yn y DU sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn sydd wedi profi cam-driniaeth ddomestig. Ers ei sefydlu, mae dros 140 o bobl hŷn a'u teuluoedd wedi cael cefnogaeth ddwys hir-dymor, gyda llawer yn disgrifio'r gwasanaeth fel un sydd wedi achub eu bywydau

Prifysgol Bangor

Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol Bangor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i archwilio'r lefelau Covid-19 sy'n bresennol mewn dŵr gwastraff. Mae'r gwaith hwn yn helpu i gofnodi lefelau'r feirws yng nghymunedau Cymru, a gall hefyd ddarparu system rhybuddio cynnar ar gyfer clefydau eraill sy'n dod i'r amlwg yn y gymuned, fel fflw a norofeirws.

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Mae gwyddonwyr ym Met Caerdydd wedi creu teclyn 'HUG' sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cysur a chynyddu llesiant pobl sy'n byw gyda dementia dwys. Mae ganddo galon sy'n curo, mae'n chwarae cerddoriaeth, ac mae ganddo 'freichiau' ag iddynt bwysau, sy'n rhoi'r teimlad o roi a derbyn cwtsh. Mewn astudiaeth a gynhaliwyd mewn cartref gofal, dangosodd y bobl a ddefnyddiodd yr HUG am chwe mis gynnydd o 87% yn eu llesiant.

Prifysgol Caerdydd

Nod Prosiect Treftadaeth Caer gan Brifysgol Caerdydd yw codi proffil safleoedd hanesyddol fel Bryngaer Caerau, sef y safle mwyaf o ran maint a chymhlethdod o'r Oes Haearn yn ardal Caerdydd. Mae'r prosiect yn cynnwys pobl a chymunedau lleol ym mhob rhan o'r broses trwy weithgareddau fel ymchwil hanesyddol a chloddfeydd archeolegol. Mae'r prosiect wedi denu dros 3,500 o gyfranogwyr gweithredol.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae prosiect REACH Blaneau Gwent, sy'n cael ei redeg gan y Brifysgol Agored yng Nghymru mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Linc Cymru a Grŵp Trigolion Aberbeeg, yn cynorthwyo trigolion Blaenau Gwent i ymgysylltu â'r celfyddydau, y gymuned a threftadaeth. Mae yna gynlluniau ar y gweill i dyfu'r prosiect ym mhob ardal yng Nghymru.

Prifysgol Abertawe

Mae prosiect Copperopolis Prifysgol Abertawe yn canolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau cymunedol, ysgolion, colegau ac elusennau wrth adfywio gwaith copr Hafod, prosiect sy'n seiliedig ar dreftadaeth. Mae'r gwaith wedi helpu i godi proffil treftadaeth ddiwydiannol Cwm Tawe Isaf a'i phwysigrwydd i'r ddinas.

Prifysgol De Cymru

Mae Prifysgol De Cymru yn gweithredu Cynllun Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, sy'n caniatáu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru gael gwrsi iaith fel rhan o'u paratoi ar gyfer dechrau ar gwrs gradd.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Mae'r Ganolfan Arloesi ar gyfer Technolegau Cynorthwyol (ATiC) yn PCyDDS yn gweithio gyda Cerebra i ddatblygu proses ar gyfer sganio pennau plant â chyflyrau ymennydd sydd wedi effeithio ar dwf a datblygiad eu penglogau. Mae gan Imogen barlys yr ymennydd ac mae wrth ei bodd yn marchogaeth, ond mae siâp ei phenglog yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i helmed marchogaeth sy'n ffitio'n iawn. Trwy'r bartneriaeth hon, llwyddodd ATiC a Cerebra i ddefnyddio offer sganio uwch-dechnoleg i greu helmed bwrpasol sy'n ffitio'n berffaith.

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Nod y prosiect TrACE gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a Hyb Cymorth ACE yw galluogi a chynorthwyo Cymru i ddod yn arweinydd byd-eang ym maes atal, lliniaru a mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol a thrawma yn ystod plentyndod.

Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Rhyngwladol



Mae Cymru yn denu oddeutu 22,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yn flynyddol ac mae'n gyrchfan o ddewis i ymchwilwyr o bob rhan o'r byd.

Mae myfyrwyr a staff rhyngwladol yn cyfoethogi profiad myfyrwyr, yn gwella dysgu ac addysgu, ac yn helpu i wneud graddedigion o Gymru yn fwy parod ar gyfer gwaith.


Mae myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant economaidd yn ogystal â diwylliannol Cymru.

Mae prifysgolion yn cynhyrchu oddeutu £661 miliwn o enillion allforio bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 11.8% o holl allforion Cymru, gan greu tua 12,000 o swyddi a chynorthwyo twristiaeth. Mae hyn yn helpu i hybu economïau lleol ledled Cymru, gyda phob rhan o Gymru yn elwa ar wariant myfyrwyr, staff ac ymwelwyr rhyngwladol.

Mae prifysgolion Cymru yn gweithio'n galed i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol trwy gydol eu hastudiaethau. O ganlyniad i'r cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol y maent yn eu gwneud yn y brifysgol, mae myfyrwyr rhyngwladol yn cadw cysylltiadau agos â Chymru ar ôl iddynt raddio gan gryfhau pŵer meddal Cymru ar y llwyfan byd-eang. Mae rhwydweithiau cyn-fyfyrwyr rhyngwladol Cymru yn gweithredu fel llysgenhadon tramor, gan ddatblygu cysylltiadau pwysig rhwng Cymru ac ystod eang o fusnesau a chysylltiadau byd-eang.



Mae prifysgolion yn creu oddeutu £661 miliwn mewn enillion allforio bob blwyddyn



Mae hyn yn gyfystyr â 11.8% o holl allforion y sector gwasanaethau



Yn ei dro, mae hyn yn creu oddeutu 12,000 o swyddi

Taith

Bydd y rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol uchelgeisiol gwerth £65M hon yn cyllido symudedd myfyrwyr a staff tuag i mewn a thuag allan ar draws prifysgolion ac addysg bellach yn ogystal ag addysg a hyfforddiant galwedigaethol, addysg oedolion, lleoliadau gwaith ieuenctid ac ysgolion. Bydd y cynllun, a fydd yn fyd-eang o ran ei gyrhaeddiad, yn cychwyn yn y flwyddyn academiaidd 2022-2023 ac yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Caerdydd



Cymru Fyd-eang

Mae Cymru Fyd-eang yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig yng Nghymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sy'n darparu cefnogaeth strategol i sector addysg uwch Cymru fel diwydiant allforio allweddol, yn ogystal ag adeiladu rhwydweithiau ar gyfer Cymru yn rhyngwladol.

Rhwng 2022 a 2026, bydd Cymru Fyd-eang yn ffurfio rhan strategol o'r cynllun cyfnewid dysgu rhyngwladol newydd, Taith, a lansiwyd yn Chwefror 2022

Mynychodd

134,760

o fyfyrwyr brifysgolion yng Nghymru yn 2019/20

Daeth

52%

o Gymru

Daeth

32%

o weddill y DU

Daeth

4%

o'r UE

Daeth

12%

o du allan yr UE



Amcanion Cymru Fyd-eang yw:



Cynyddu recriwtio
myfyrwyr



Cynnal a thyfu
partneriaethau
ymchwil ac addysgol



Creu incwm
allforio



Cynyddu
ymwybyddiaeth
ac enw da
sefydliadau Cymru'n
rhyngwladol

Mae'r rhaglen wedi sefydlu pedair marchnad i'w blaenoriaethu: UDA, India a Fietnam, ac yn fwyaf diweddar ychwanegwyd yr Undeb Ewropeaidd fel y bedwaredd ardal flaenoriaeth.

Yr hyn sy'n gwneud Cymru Fyd-eang yn unigryw yw'r gallu i gymryd rhan mewn datblygiad 'system i system', gan ysgogi pob elfen o system AU Cymru (llywodraeth, rheoleiddio, sector) i ymateb yn gyflym ac yn arloesol i ofynion gwledydd partner. Yn gefndir i hyn mae gweithgareddau datblygu'r farchnad, yn amrywio o recriwtio a marchnata i brosiectau cynyddu capasiti, dirprwyaethau diplomyddol ac ymweliadau, yn ogystal ag amrywiaeth o ysgoloriaethau o fri, gan gynnwys Ysgoloriaeth flaenllaw Cymru Fyd-eang.

Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Sgiliau ar gyfer y dyfodol



Mae yna fwy na 130,000 o fyfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru, yn astudio rhaglenni, o athroniaeth i sŵoleg.

Y tu hwnt i'r llwybrau israddedig, meistr a doethuriaeth traddodiadol, mae prifysgolion Cymru yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu hyblyg i sicrhau bod addysg uwch yn hygyrch, gan greu gweithwyr medrus ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gweithle'n newid. Mae'r dyfodol yn cynnig cyfleoedd a heriau i brifysgolion, wrth i'r economi symud i fod yn un lle mae awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial yn dod yn fwyfwy pwysig. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio a lleihad yn nifer y newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu yn golygu y bydd canfod ffyrdd y gall pobl o bob oed a chefnidir ailsgilio ac uwchsgilio yn dod yn bwysicach fyth.

Cymru sydd â'r gyfradd uchaf y pen o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i ddarparu gan brifysgolion yn y DU, gan ddarparu mwy na 250,000 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol yn 2019-20.

Prentisiaethau Gradd

Mae prentisiaethau gradd yn rhaglenni gradd integredig sy'n cynnwys cyflogwyr, a lle mae dysgu yn y gweithle'n chwarae rôl mor bwysig â'r amser a dreulir yn astudio yn y brifysgol. Maent yn cynnig llwybr newydd at ennill gradd a fydd yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi'r rheiny sydd eisoes yn y gweithlu, neu sydd â chyfrifoldebau sy'n gwneud astudio llawn-amser yn heriol, i gael mynediad at ddysgu ar lefel prifysgol.

Mae'r rhaglen yng nghanol olaf y cynllun peilot, sy'n cwmpasu tri maes: Tech. Gwyb./cyfrifiadureg, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Gall cyflogwyr yng Nghymru gynnig prentisiaeth gradd yn y meysydd pwnc hyn trwy bartneriaeth â phrifysgol yng Nghymru.

Mae prentisiaid gradd yn gweithio ochr-yn-ochr â gweithwyr profiadol i ennill sgiliau a phrofiad ymarferol, ynghyd â derbyn hyfforddiant allanol. Mae hyn yn golygu bod prentisiaid gradd yn gorffen eu cwrs gyda'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y gwaith, yn ogystal â'r wybodaeth lefel uwch sy'n dod gyda chymhwyster gradd.

Mae'r prentisiaethau'n para trwy gydol y cwrs gradd, gyda phrentisiaid yn treulio tua 20% o'u hamser yn y brifysgol a'r gweddill gyda'u cyflogwr. Yng Nghymru, bydd prentisiaeth gradd yn para o leiaf tair blynedd, ac fel arfer byddant hyd at bum mlynedd o hyd.

Mae Prifysgolion Cymru o blaid ehangu'r rhaglen Prentisiaeth Gradd y tu hwnt i'r peilot tair blynedd, ac ar gyfer ystod ehangach o feysydd pwnc a hyd at lefel Meistr, gydag ymrwymiad parhaus i ehangu mynediad a denu myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd.

Ehangu Mynediad

Mae prifysgolion yn chwarae rhan hanfodol mewn symudedd cymdeithasol. Yn wir, mae llawer o'r gwaith y mae prifysgolion yn ei wneud yn y maes hwn yn dod o dan y pennawd 'ehangu mynediad'. Mae gan bob prifysgol gynllun ffioedd a mynediad, sy'n nodi sut y byddant yn denu, cadw a chefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, i sicrhau y gallant gyflawni eu potensial llawn.

Mae cynlluniau ffioedd a mynediad yn cynnwys, er enghraifft, y dulliau y mae prifysgolion yn eu defnyddio i gyfathrebu â myfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y gynhaliaeth ariannol sydd ar gael iddynt. Hefyd sut maen nhw'n cynyddu dyheadau ymhlith disgyblion oed ysgol i'w hannog i ystyried addysg uwch, a sut maen nhw'n rhoi cymorth i'w hundebau myfyrwyr i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb.

Yn 2018/19, roedd gan 39% o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru gyfeiriad cartref o fewn dau gwintel isaf yr Ardaloedd Allbwn ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.

Mae cyfran y myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel - ardaloedd â llai o bobl yn mynd i brifysgolion - ym mhrifysgolion Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU. Ar gyfer y blynyddoedd academiaidd 2015/16 i 2019/20, roedd gan Gymru 15.6% o fyfyrwyr gradd gyntaf o gymdogaethau cyfranogiad isel, o gymharu â chyfartaledd y DU o 11.8%.

Cyfleoedd dysgu hyblyg

Mae prifysgolion wedi datblygu ffyrdd newydd o ddarparu sgiliau lefel uwch i bobl o bob oed a chefnidir - gan gynnwys trwy brentisiaethau gradd - ac mae darpariaeth ran-amser yn greiddiol i hyn. Mae prifysgolion wedi ymrwymo i ymestyn ehangder a chyrhaeddiad y sgiliau a gynigiwn, gan gynnwys dysgu rhan-amser a dysgu gydol oes.

Sicrhau canlyniadau

Amlygodd ymgyrch Prifysgolion y DU yn ystod haf 2021 Getting Results y cyfraniadau a wnaed gan brifysgolion at adferiad y DU, yn seiliedig ar ddata gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac Innovate UK.

Canfu'r ymchwil y bydd prifysgolion yng Nghymru, dros y pum mlynedd nesaf yn:



Darparu gwerth
4,000 o flynyddoedd
o uwchsgilio a
hyfforddiant i fusnesau
ac elusennau



Helpu 1,300
o fusnesau ac
elusennau newydd i
gael eu ffurfio



Hyfforddi 10,000
o nyrsys, 4,000 o
feddygon, ac 8,000 o
athrawon



Prifysgolion
Cymru
Universities
Wales

Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Pweru economi Cymru



Pweru economi Cymru



Yn 2019/20 creodd
prifysgolion Cymru dros
£5.3 biliwn o allbwn

£661m



£661 miliwn mewn enillion
allforio, sy'n cyfateb i 11.8%
o holl enillion allforio sector
gwasanaethau Cymru



£2.8bn



£1.6bn

£2.8bn mewn Gwerth Ychwanegol
Gros (GYG) i Gymru trwy eu
gwarant a gwariant myfyrwyr a'u
hymwelwyr - sy'n cyfateb i 4.2% o
GYG Cymru yn 2019.

£1.6bn o'u hallbwn eu hunain,
gyda'u gweithgareddau'n creu
£3.7bn ychwanegol o allbwn ar
gyfer economi Cymru.

Mae prifysgolion yn rhan annatod o economi Cymru, gan ddarparu cyflogaeth a chreu gweithgareddau economaidd eraill.

Mae'r addysgu a gynhelir gan brifysgolion yn hanfodol i wella sylfaen sgiliau'r genedl, ac mae'r gwaith ymchwil yn bwysig o ran cynorthwyo busnesau.

Mae pob prifysgol yng Nghymru yn Gyflogwyr Cyflog Byw achrededig - yr unig sector addysg uwch yng ngwledydd y DU sydd wedi cyflawni'r statws hwn.

Mae Cymru'n perfformio'n dda o ran busnesau sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion. Mae prifysgolion yn cynnig cefnogaeth yn amrywio o ofod swyddfa i fwrsariaethau i helpu gyda chostau sefydlu a mentora gan diwtoriaid a staff menter ymroddedig. Mae'r arolwg blynyddol o Gydweithrediad Rhwng Addysg Uwch, Busnesau a Chymunedau yn canfod yn gyson bod Cymru'n perfformio'n well na gweddill y DU o ran nifer y busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion per capita. Hefyd, mae'r cwmnïau hynny'n fwy tebygol o bara tair blynedd neu fwy, o gymharu â'r rheiny sydd mewn rhannau eraill o'r DU. Cymru hefyd sydd â'r gyfradd uchaf o fusnesau newydd gweithredol a sefydlwyd gan raddedigion yn y DU, gyda busnesau o'r fath yng Nghymru'n cyfrif am 13.25% o gyfanswm y DU.

Canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn 2019/20 i effaith economaidd prifysgolion yng Nghymru fod prifysgolion Cymru wedi cynhyrchu dros £5 biliwn o allbwn.

Allbwn

£1.64 biliwn o allbwn uniongyrchol prifysgolion trwy eu gweithgareddau, gan gynhyrchu £2.1 biliwn arall o allbwn canlyniadol ar gyfer economi'r DU, gyda'r rhan fwyaf ohono (£1.57bn) yn dod yn ôl i ddiwydiannau yng Nghymru.

Hynny yw, llwyddodd pob £1 miliwn o allbwn prifysgolion Cymru yn 2019/20 i greu effaith allbwn eilaidd arall o £0.96 miliwn yng Nghymru, ynghyd â £0.33 miliwn arall y tu allan i Gymru, yng ngweddill y DU.

Swyddi

Darparodd prifysgolion yng Nghymru 20,730 o swyddi, oedd yn eu tro'n creu 47,887 o swyddi y tu allan i brifysgolion.

Roedd cyfanswm yr effaith wedi'i chyfuno ar gyflogaeth yn sgil prifysgolion a'u myfyrwyr yng Nghymru yn 61,722 o swyddi. Roedd hyn gyfwerth â 4.8% o holl swyddi gweithwyr Cymru yn 2018

GYG

Creodd prifysgolion Cymru, ynghyd â'u myfyrwyr ac ymwelwyr rhyngwladol cysylltiedig, Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) o dros £2.8 biliwn i Gymru, sy'n cyfateb i 4.2% o gyfanswm GYG Cymru yn 2019.


Enillion allforio

Yn 2019/20 denodd prifysgolion Cymru bron i 22,000 o fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU. Cyfanswm ffioedd dysgu a gwariant myfyrwyr rhyngwladol oddi ar y campws oedd £661m, sy'n cyfateb i oddeutu 11.8% o holl enillion allforio sector gwasanaethau Cymru.



Arweiniad i addysg
uwch yng Nghymru

Adeiladu dyfodol
Cymru - cyfleoedd
a heriau yn ystod y
chweched Senedd



Mae prifysgolion mewn sefyllfa dda i gydweithio â phartneriaid ledled Cymru er mwyn cynorthwyo ag adferiad ein gwlad o'r pandemig ac adeiladu dyfodol Cymru gyda'n gilydd.



Gweithlu sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Yn ystod cyfnod y chweched Senedd, bydd prifysgolion yn gallu cynorthwyo cyflogaeth:

- trwy ddarparu dysgu hyblyg cydgysylltiedig, gan gynnwys darpariaeth ran-amser
- trwy ddarparu gweithgaredd ymchwil ac arloesi a fydd yn creu busnesau newydd, swyddi newydd a diwydiannau newydd. Bydd hyn yn cynnwys partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth sy'n helpu busnesau sy'n bodoli eisoes i ehangu
- trwy gynnig cymorth i'r genhedlaeth o fusnesau newydd, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu sefydlu gan raddedigion, lle mae Cymru eisoes yn arwain y DU
- trwy weithgaredd economaidd lleol gan brifysgolion, yn cynnwys y cyfraniad at yr economi sylfaenol a gwariant gan staff, myfyrwyr ac ymwelwyr



Newid hinsawdd

Mae prifysgolion Cymru yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy ddatblygu a gweithredu datrysiadau yn y ras tuag at sero-net.

- Mae ymchwil ac arloesi'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r ffordd yr ydym ni fel cymdeithas yn trosglwyddo i ddyfodol carbon isel, yn ogystal â'r heriau ymarferol sy'n ymwneud â chynhyrchu a storio ynni. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn gydweithredol ac yn rhoi sylw manwl i faterion cymhleth a rhyngddibynnol.
- Mae prifysgolion hefyd mewn sefyllfa dda i gyflawni o ran y defnydd cynaliadwy o adnoddau, ein tiroedd a'n moroedd.
- Wrth i ni gyflwyno technolegau newydd - fel y rhai a fydd yn creu ac yn cynyddu nifer y cartrefi niwtral o ran ynni neu ynni-bositif - bydd angen i ni hefyd ailhyfforddi ac uwchsgilio'r rhai a fydd yn gosod ac yn defnyddio'r technolegau hyn. Bydd cyfleoedd i uno'r system sgiliau ymhellach, gan felly ganiatáu i ymchwil ac arloesi blaengar ffurfio sail i'r ddarpariaeth ar draws y system addysg gyfan.

Digideiddio

Bydd ymateb Cymru i ddigideiddio, a sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw, yn dibynnu i raddau helaeth ar ein gallu i uwchsgilio ein poblogaeth ymhellach, a'r llwyddiant a gawn wrth ddarparu ymchwil ac arloesi yn y maes hwn.

- Mae cyflwyno prentisiaethau gradd yn y maes digidol wedi arwain at alw sylweddol a chynyddol gan fusnesau ledled Cymru.
- Mae prifysgolion Cymru'n gartref i hybiau a chanolfannau uchel eu proffil sy'n ymwneud â seiber-ddiogelwch, peirianeg meddalwedd a gwyddoniaeth data. Mae prifysgolion yng Nghymru yn adeiladu dyfodol digidol Cymru.



Newid perthnasoedd byd-eang

Trwy gyn-fyfyrwyr, staff a symudedd myfyrwyr, ymchwil cydweithredol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, mae ein prifysgolion yn cyfrannu at bŵer meddal Cymru.

- Mae partneriaethau a sefydlwyd gan ein prifysgolion trwy addysg draws-wladol, ymchwil a gweithgareddau masnachol wedi sefydlu ôl troed sylweddol i Gymru yn rhyngwladol, gan adeiladu ar gydnabyddiaeth ryngwladol o Gymru fel gwlad arloesol a blaengar.
- Yn yr un modd, trwy ddod i Gymru, mae myfyrwyr, staff ac ymchwilwyr rhyngwladol yn chwarae rhan amhrisiadwy wrth arallgyfeirio a rhyngwladoli ein cymunedau.

Hyrwyddo diwylliant Cymreig


Mae prifysgolion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd diwylliannol Cymru.

- Yn ogystal ag addysgu ac ymchwil yn y celfyddydau a'r dyniaethau, mae ein prifysgolion yn aml yn ganolfannau diwylliannol ac artistig sy'n cynnig perfformiadau byw, arddangosfeydd a darlithoedd cyhoeddus.
- Mae prifysgolion yn ymgymryd ag ymchwil ynglŷn â Chymru a'i diwylliant.
- Mae prifysgolion hefyd yn aml yn darparu gofod cymunedol, lle i bobl ymgynnull ac ymwneud â gweithgareddau a rennir.
- Wrth i ni ddod allan o'r pandemig Coronavirus, bydd presenoldeb sefydledig prifysgolion mewn cymunedau yn darparu cyfleoedd i ddod ynghyd a rhannu profiadau. Bydd prifysgolion hefyd yn parhau i fod yn allweddol o ran cyflawni uchelgeisiau o ran y Gymraeg trwy ddarparu addysg Gymraeg, a hefyd mewn llawer o achosion, darparu neu gynnal cyrsiau Gymraeg i Oedolion

Adeiladu Rhanbarthau Cymru

Mae prifysgolion Cymru yn angorau economaidd hanfodol ym mhob rhan o Gymru sy'n cefnogi'r economi sylfaenol.

- Mae pob prifysgol yng Nghymru'n gyflogwyr Cyflog Byw achrededig ac wedi ymuno â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae gan brifysgolion adnoddau i sicrhau budd uniongyrchol i'w cymunedau trwy gyllido, tra hefyd yn gweithredu fel asiant ar ran sefydliadau a busnesau eraill - a allai fod â llai o allu gweinyddol - i gael mynediad at gyfleoedd buddsoddi rhanbarthol.
- Yn ogystal â hynny, mae prifysgolion yn gallu cael gafael ar gyllido rhanbarthol er mwyn sicrhau buddsoddiad ychwanegol ar gyfer Cymru.



+44 (0)29 2044 8020

info@uniswales.ac.uk

www.uniswales.ac.uk

@Unis_Wales